# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005

**Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn**

**Ysgol Sant Curig**
**Heol Y Coleg**
**Y Barri**
**Sir Bro Morgannwg**
**CF62 8HQ**

**Rhif yr Ysgol: 6732178**

**Dyddiad yr Arolygiad: 21 Ionawr 2008**

**gan**

**Huw Watkins**
**79523**

**Dyddiad Cyhoeddi:  26 Mawrth 2008**

**O dan rif contract Estyn: 1115707**

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Sant Curig fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Sant Curig rhwng Ionawr 21ain ac Ionawr 24ain 2008, gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Huw Watkins. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Gradd 1** | da gyda nodweddion rhagorol |
| **Gradd 2** | nodweddion da a dim diffygion pwysig |
| **Gradd 3** | nodweddion da'n gorbwyso diffygion |
| **Gradd 4** | rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig |
| **Gradd 5** | llawer o ddiffygion pwysig |

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

**Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.**

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **safonol.**

## Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Sector uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | | |
|---|---|---|
| **Cyd-destun** | | 1 |
| **Crynodeb** | | 2 |
| **Argymhellion** | | 8 |
| **Safonau** | | 8 |
| Cwestiwn Allweddol 1: | Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? | 8 |
| **Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant** | | 11 |
| Cwestiwn Allweddol 2: | Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? | 11 |
| Cwestiwn Allweddol 3: | Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? | 12 |
| Cwestiwn Allweddol 4: | Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? | 15 |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | | 16 |
| Cwestiwn Allweddol 5: | Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol? | 16 |
| Cwestiwn Allweddol 6: | Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? | 17 |
| Cwestiwn Allweddol 7: | Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? | 18 |
| **Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu** | | 18 |
| Saesneg | | 19 |
| Mathemateg | | 20 |
| Technoleg gwybodaeth | | 20 |
| Dylunio a thechnoleg | | 21 |
| Daearyddiaeth | | 22 |
| Addysg gorfforol | | 23 |
| **Ymateb yr ysgol i'r arolygiad** | | 23 |
| **Atodiadau** | | 24 |
| 1 | Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol | 24 |
| 2 | Data a dangosyddion ysgol | 24 |
| 3 | Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol | 25 |
| 4 | Sail dystiolaeth yr arolygiad | 25 |
| 5 | Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu | 26 |

## Cyd-destun

### Natur y darparwr

1. Lleolir Ysgol Benodedig Gymraeg Sant Curig yn nhref arfordirol Y Barri ar gyrion Caerdydd. Yn ôl y dystiolaeth a gafwyd gan yr ysgol, ni ystyrir yr ardal yn un ffyniannus nac yn un sydd o dan anfantais economaidd. Mae gan 11% o'r disgyblion yr hawl i dderbyn cinio am ddim.
2. Derbynnir disgyblion i'r ysgol o ddalgylch eang hyd at bum milltir i ffwrdd. Darperir trafnidiaeth ar eu cyfer gan yr awdurdod addysg leol (AALl). Nid oes llawer o symud i mewn ac allan o'r ysgol ymysg y disgyblion.
3. Adeg yr arolygiad, roedd 406 o ddisgyblion ar y gofrestr – gyda 374.5 cyfradd amser llawn, yn cynnwys plant meithrin. Derbynnir ystod lawn o blant i'r meithrin o amrywiaeth o gefndiroedd cymdeithasol, gyda 78% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle na siaredir y Gymraeg gan un rhiant. Addysgir y disgyblion mewn dosbarthiadau o un oedran, gyda dau ddosbarth ar gyfer pob blwyddyn ysgol.
4. Y Gymraeg yw prif gyfrwng addysg a gwaith yr ysgol, gyda'r nod o sicrhau bod y disgyblion yn rhugl yn y ddwy iaith cyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn 11 oed. Cyflwynir y Saesneg fel pwnc yn B3.
5. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai 2002 a bu llawer o newidiadau staffio ers hynny, gyda'r pennaeth presennol mewn swydd ers Medi 2006.

### Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

6. Mae blaenoriaethau'r ysgol fel y'u nodir yn y cynllun datblygu ysgol (CDY) cyfredol, yn cynnwys:

   - sefydlu a gweithredu cylch rheoli perfformiad a chylch hunan werthuso ysgol;
   - cwblhau awdit llawn o'r pwnc mathemateg;
   - gwella cysylltiadau â diwydiant;
   - gwella'r ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion addysg ychwanegol;
   - datblygu rôl cydlynwyr pwnc;
   - datblygu'r defnydd o asesu ar gyfer dysgu;
   - datblygu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh);
   - gwella'r berthynas rhwng yr ysgol â rhieni, a
   - datblygu 'darllen' ar draws yr ysgol.

## Crynodeb

7. Mae Ysgol Sant Curig yn ysgol dda sy'n gosod sylfeini cadarn ar gyfer addysg ei disgyblion. Mae'n cynnig addysg ofalgar a chynhwysol i'r disgyblion gan feithrin ynddynt falchder tuag at y Gymraeg ac addysg Gymraeg. Mae ansawdd yr addysgu yn gryfder ac yn cyfrannu tuag at y safonau da a gyflawnir. Mae'r adeilad mewn cyflwr da ac yn darparu amgylchedd diogel a symbylus ar gyfer y disgyblion.

8. Cytunodd y tîm arolygu gydag arfarniad yr ysgol ar gyfer y saith cwestiwn allweddol.

**Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd**

| | Cwestiwn Allweddol | Gradd arolygu |
|---|---|---|
| 1 | Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? | Gradd 2 |
| 2 | Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? | Gradd 2 |
| 3 | Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? | Gradd 2 |
| 4 | Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? | Gradd 2 |
| 5 | Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol? | Gradd 2 |
| 6 | Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? | Gradd 3 |
| 7 | Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? | Gradd 2 |

9. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol i blant o dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da iawn yn y chwe maes dysgu tuag at y Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant.

10. Roedd safonau cyflawniad disgyblion yn y gwersi a arsylwyd fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 18% | 76% | 6% | 0% | 0% |

11. Yn y gwersi yr arsylwyd arnynt, roedd safonau cyflawniad disgyblion yn uwch na tharged Llywodraeth Cynulliad Gymru (LICC) ar gyfer 2010 (Ffynhonnell : Gweledigaeth ar Waith) sy'n nodi y dylai ansawdd y dysgu a aseswyd gan Estyn fod yn Radd 3 neu'n well mewn 98% o ddosbarthiadau.

**Graddau a ddyfernir yn y pynciau a arolygwyd**

| Maes Arolygu | Cyfnod Allweddol 1 | Cyfnod Allweddol 2 |
|---|---|---|
| Saesneg | D/B | Gradd 2 |
| Mathemateg | Gradd 2 | Gradd 1 |
| Technoleg gwybodaeth | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Dylunio a thechnoleg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Daearyddiaeth | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Addysg gorfforol | Gradd 2 | Gradd 1 |

12. Yng nghyfnod allweddol 1 yn 2007, yn ôl asesiadau athrawon, cyrhaeddodd 55% o ddisgyblion lefel 2 neu'n uwch ym mhynciau craidd Cymraeg,

mathemateg a gwyddoniaeth ar ddiwedd y cyfnod allweddol. Roedd y canlyniadau hynny'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol a sirol. O gymharu perfformiad y bechgyn a'r merched, mae'r bechgyn wedi perfformio'n sylweddol well na'r merched.

13. Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2007, cyrhaeddodd 86% o ddisgyblion yn yr ysgol lefel 4 neu'n uwch, fel y'u pennwyd gan ganlyniadau asesiadau athrawon ym mhynciau craidd Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd canlyniadau'r ysgol ar gyfer 2007 yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol a sirol mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Nid oes unrhyw batrwm o wahaniaethau amlwg ym mherfformiad bechgyn a merched yn y cyfnod allweddol hwn.

14. Wrth gymharu ag ysgolion cyffelyb yng Nghymru o ran canran y disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol rhad ac am ddim, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae canlyniadau'r ysgol yng nghyfnod allweddol 1 wedi tueddu i fod yn y 25% isaf a rhwng y 25% a'r 50% isaf yn y flwyddyn cyn hynny. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r canlyniadau wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf dros dair blynedd, ond yn sylweddol uwch na disgwyliadau'r ysgol yn ôl y targedau a osodwyd.

15. Mae'r plant o dan bump a'r disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn llwyddo i gyflawni'r targedau a osodir ar eu cyfer ac yn profi llwyddiant yn eu gwaith, beth bynnag yw eu gallu a'u cefndir cymdeithasol neu ieithyddol.

16. Gwna'r plant o dan bump oed gynnydd rhagorol yn eu medrau cyfathrebu. Maent yn dod i siarad gyda hyder. Maent yn gwrando'n rhagorol ar oedolion ac ar eu cyfoedion ac maent wedi dechrau meistroli medrau darllen ac ysgrifennu elfennol. Mae eu medrau mewn rhifedd a TGCh yn datblygu'n dda.

17. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn y ddau gyfnod allweddol yn gwneud cynnydd da yn eu medrau dysgu sylfaenol a phersonol.

18. Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, mae'r safonau a chynnydd y disgyblion ym medrau allweddol siarad a gwrando yn rhagorol, ac yn dda yn eu medrau darllen ac ysgrifennu ym mhob pwnc yr arsylwyd arnynt.

19. Yn y ddau gyfnod allweddol, gwna'r disgyblion gynnydd da yn eu medrau mewn mathemateg, TGCh, datrys problemau a'u medrau creadigol.

20. Mae safonau cymhwysedd dwyieithog y disgyblion yn rhagorol drwy'r ysgol, tra bod eu gwybodaeth o'r Cwricwlwm Cymreig yn dda.

21. Gwna disgyblion o bob oed gynnydd da yn eu dysgu wrth iddynt yn gynyddol gaffael gwybodaeth a medrau newydd. Mae rhai o'r disgyblion hynaf yn medru gwerthuso eu gwaith eu hunain, ac yn aml, maent yn gweithio'n effeithiol mewn parau er mwyn helpu ei gilydd i wella.

22. Mae safon ymddygiad y disgyblion ym mhob agwedd o fywyd ysgol yn rhagorol. Maent yn gwrtais iawn ac yn ystyriol tuag at eu cyfoedion, y staff ac ymwelwyr. Mae hyn yn helpu i greu amgylchedd croesawgar. Ymateba'r disgyblion yn dda i gyfarwyddiadau'r athrawon a'r staff cymorth. Canmola'r rhieni ymdrechion yr ysgol i greu a chynnal y safonau ymddygiad hyn.

23. Mae gan y disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith a'u chwarae, maent yn frwdfrydig ac yn awyddus i foddhau eu hathrawon. Maent yn

defnyddio’u hamser yn dda yn y gwersi, gan ddyfalbarhau yn gydwybodol ar dasgau. Maent yn barod fel arfer ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

24. Gwna’r disgyblion gynnydd da yn eu medrau personol, cymdeithasol, ysbrydol, diwylliannol a moesol.

25. Roedd presenoldeb ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol yn ystod y tri thymor cyn yr arolygiad ar gyfartaledd yn 92.67%. Mae hyn yn sylweddol is na’r targedau cenedlaethol. Mae cofnodi presenoldeb yn cwrdd â’r gofynion statudol, ac mae systemau priodol mewn lle er mwyn i rieni hysbysu’r ysgol ynglŷn ag absenoldebau, gyda’r ysgol yn cysylltu â’r cartref os na fyddant wedi derbyn neges o’r fath. Mae cysylltiad da rhwng yr ysgol â swyddog lles yr AALl.

26. Mae prydlondeb ar ddechrau’r diwrnod ysgol yn gyffredinol dda, ond mae nifer fechan o ddisgyblion yn gyson hwyr. Mae gan yr ysgol system i fynd i’r afael â hyn. Mae prydlondeb i ddosbarthiadau unigol yn ystod y dydd yn dda.

27. Drwyddi draw, mae’r disgyblion yn dangos parch tuag at amrywiaeth o gredoau, agweddau a thraddodiadau diwylliannol a chymdeithasol eraill. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gyfleoedd cyfartal a thegwch, ond mae angen datblygu ymhellach eu dealltwriaeth o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

28. Mae mwyafrif y disgyblion yn arddangos dealltwriaeth gynyddol o’u cymuned eu hunain trwy ymweliadau â’r gymuned leol a lleoedd eraill o ddiddordeb yn gysylltiedig â’u gwaith yn y dosbarth. Mae eu hadnabyddiaeth a dealltwriaeth o fyd gwaith, a’u medrau menter yn datblygu’n dda.

29. Mae’r cyngor ysgol yn cwrdd yn rheolaidd ac yn adlewyrchu llais y disgyblion yn effeithiol.

**Ansawdd yr addysg a’r hyfforddiant**

30. Arsylwyd 51 o wersi neu rannau o wersi a barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 27% | 57% | 16% | 0% | 0% |

31. Mae ansawdd yr addysgu yn gryfder yn yr ysgol ac yn elfen bwysig yn y cynnydd a wna’r disgyblion a’r safonau a gyflawnir. Gwelwyd enghreifftiau o addysgu da ym mhob dosbarth. Mae’r berthynas waith ragorol sy’n bodoli rhwng yr athrawon a’r disgyblion yn hyrwyddo dysgu effeithiol ac mae’r athrawon yn fodelau rôl o safon uchel.

32. Mae’r disgyblion yn ymwybodol o’u disgwyliadau o ran gwaith ac ymddygiad. Caiff gwaith da ei ganmol ac mae’r ymagwedd o ddathlu ymdrech ac agwedd at waith yn nodwedd effeithiol o’r addysgu.

33. Mae gan yr athrawon wybodaeth dda o’r pynciau y maent yn eu haddysgu ac o’r Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant o dan bump oed. Defnyddiant amrywiaeth o strategaethau addysgu ac ystod o adnoddau perthnasol er mwyn cynnig profiadau dysgu gwerthfawr i’r disgyblion. Llwyddant i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i herio delweddau a safbwyntiau ystrydebol yn llwyddiannus.

34. Mae’r addysgu yn hyrwyddo datblygiad dwyieithog y disgyblion yn llwyddiannus iawn. Defnyddia’r athrawon amrywiaeth o strategaethau pwrpasol i ymestyn

medrau cyfathrebu'r disgyblion a manteisir yn effeithiol iawn ar bob cyfle i ddatblygu'r dimensiwn Cymreig o fewn pynciau.

35. Darpara'r polisi asesu ganllawiau clir sy'n sicrhau bod asesu yn diwallu'r anghenion statudol. Mae ansawdd yr asesu sylfaen ar gyfer plant dan bump a'r defnydd o brofion ac ystod o asesiadau safonol ar draws cyfnodau allweddol 1 a 2 yn nodwedd effeithiol. Defnyddir y wybodaeth yn briodol ar gyfer adnabod disgyblion sydd ag angen cymorth ychwanegol

36. Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n rheolaidd ac yn yr arfer orau, mae sylwadau'r athrawon yn esbonio'n glir i ddisgyblion sut y gallant wella safon eu gwaith.

37. Ceir trefniadau priodol ar gyfer asesu cyflawniadau a chynnydd dysgwyr yn y pynciau craidd, ond annatblygedig yw'r gweithdrefnau ar gyfer nodi cynnydd yn y pynciau sylfaen.

38. Darperir adroddiadau manwl ar gyfer rhieni a gofalwyr sy'n cwrdd â'r gofynion statudol. Maent yn amlinellu medrau a chyflawniadau'r disgyblion ac mae'r rhain o safon dda.

39. Nodwedd dda o fywyd a gwaith yr ysgol yw ansawdd y ddarpariaeth gwricwlaidd. Cynigir mynediad cyfartal i gwricwlwm eang a chytbwys sy'n datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau'r disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r ddarpariaeth yn gymdeithasol gynhwysol ac yn sicrhau cydraddoldeb mynediad a chyfle i bawb. Mae'r cynlluniau gwaith ar gyfer yr holl bynciau cwricwlaidd ynghyd â'r maes llafur addysg grefyddol yn drefnus a chynhwysfawr.

40. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da iawn tuag at Ganlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant. Darperir gweithgareddau ysgogol a phwrpasol sy'n cynnig sail gadarn ar gyfer y dysgu yng nghyfnod allweddol 1.

41. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn meistroli'r medrau sylfaenol a'r medrau allweddol yn dda.

42. Darperir ystod ragorol o gyfleoedd allgyrsiol dysgu er mwyn ymestyn a chyfoethogi'r cwricwlwm. Mae'r disgyblion yn elwa o'r llu o gyfleoedd amrywiol a gynigir gan yr athrawon.

43. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol y disgyblion yn effeithiol. Darperir gwasanaethau o addoli ar y cyd sy'n cydymffurfio â'r gofynion ac sydd wedi'u seilio'n gadarn ar egwyddorion Cristnogol. Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion fyfyrio'n dawel ac i gyfrannu mewn gwasanaethau ysgol-gyfan.

44. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu datblygiad moesol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol. Mae'r ysgol yn meithrin gwerthoedd cadarn ac yn gweithio'n ddiwyd, o'r cychwyn cyntaf, i feithrin parch, gonestrwydd a chwrteisi ymysg y disgyblion. O ganlyniad, mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gref o'r gwerthoedd moesol sy'n llywio eu cymuned.

45. Hyrwyddir datblygiad diwylliannol y disgyblion yn dda a chânt gyfle i astudio eu diwylliant eu hunain megis mewn pynciau fel hanes ac addysg grefyddol. Hybir ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliannau eraill yn dda mewn ystod o feysydd ar draws y cwricwlwm.

46. Ceir partneriaeth agos rhwng yr ysgol a'r rhieni. Roedd ymatebion y rhieni drwy'r holiaduron a'r cyfarfod cyn arolygiad yn hynod o gefnogol.

47. Mae cysylltiadau cadarn wedi'i sefydlu gyda'r ysgolion hynny sydd yn perthyn i glwstwr ysgolion Cymraeg, Bro Morgannwg. Cydweithiant ar fentrau addysgu ac ar rannu syniadau. Mae hyn yn sicrhau bod y cyfnod trosglwyddo yn un llyfn a rhagweithiol. Mae'r berthynas gyda'r AALl yn dda iawn ac mae'r corff llywodraethol yn werthfawrogol iawn o'r gynhaliaeth a'r cyngor mae'r ysgol yn ei dderbyn.

48. Mae perthynas agos yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned. Ceir cysylltiadau da gyda nifer o golegau hyfforddi wrth i'r ysgol gynnig lleoliadau i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith. Mae llwyddiant y partneriaethau hyn i gyd yn cael effaith bositif ar ansawdd y ddarpariaeth ac yn cyfrannu tuag at ddiwallu anghenion a diddordebau'r disgyblion.

49. Darperir rhaglen waith effeithiol ar gyfer datblygu addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) y disgyblion, sy'n cwrdd â'r gofynion ac sy'n treiddio drwy bynciau eraill y cwricwlwm. Hyrwyddir pwysigrwydd cadw'n iach drwy annog y disgyblion i fwyta ffrwythau adeg yr egwyl fore ac i gymryd rhan yn yr ystod eang o weithgareddau allgyrsiol. Derbyniwyd nifer o achrediadau 'Ysgolion Iach' yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

50. Ceir cyswllt effeithiol â byd gwaith er mwyn cyfoethogi'r cwricwlwm. Rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion hŷn yr ysgol ymwneud â phrosiectau i hybu eu medrau menter. Fodd bynnag, mae lle i ddatblygu ymhellach y ddarpariaeth ar draws yr ysgol.

51. Mae'r graddau y mae'r ysgol yn llwyddo i ddatblygu gallu dwyieithog pob disgybl yn agwedd ragorol o'r ddarpariaeth. Ymfalchïa'r disgyblion yn eu Cymreictod ac yn eu gallu i siarad Cymraeg. Rhoddir lle amlwg i'r dimensiwn Cymreig ym mywyd a gwaith beunyddiol yr ysgol.

52. Mae'r ysgol yn cydnabod cyfraniad pwysig ystod eang o elusennau, ac yn darparu cyfleoedd rheolaidd i'r disgyblion gyfrannu tuag atynt.

53. Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â materion datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang drwy nifer o weithgareddau sy'n gysylltiedig ag Eco-Sgolion. Mae hefyd yn hyrwyddo pwysigrwydd cefnogi gweithgareddau masnach deg. Serch hynny, mae angen datblygu ymhellach yr elfen bwysig hon o'r cwricwlwm.

54. Llwydda'r ysgol i osod seiliau cadarn ar gyfer dysgu gydol oes. Anogir y disgyblion o oed cynnar i feithrin eu medrau cydweithio, datblygu agweddau cadarnhaol ac i fod yn ddysgwyr annibynnol.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth

55. Mae ansawdd yr arweinyddiaeth a roddir gan y pennaeth a'r uwch dîm reoli (UDRh) ar y cyfan yn dda. Er hynny, mae angen datblygu ymhellach rôl rhai cydlynwyr pwnc. Adlewyrchir nodau a gwerthoedd cytunedig yn dda yng ngwaith ac ethos yr ysgol.

56. Mae gan aelodau'r staff gyfrifoldebau priodol y maent yn eu cyflawni hyd eithaf eu gallu. Hyrwyddir cydraddoldeb i bawb yn dda ac fe anogir holl aelodau'r staff i gyfrannu'n weithredol i fywyd yr ysgol. Canolbwyntia'r ysgol yn briodol ar flaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

57. Mae gan yr ysgol amcanion a gwerthoedd penodol effeithiol sy’n hybu cydraddoldeb i bawb. Mae hyn yn gryfder arbennig sy’n perthyn i’r ysgol.

58. Er bod gan yr ysgol dargedau ar gyfer gwella perfformiad, anghyson yw eu heffaith hyd yn hyn ar godi safonau ym mhob pwnc ar draws yr ysgol. Serch hynny, mae’r ysgol bellach yn cymryd camau cadarn er mwyn cryfhau hyn.

59. Cynrychiolir llais y disgyblion yn effeithiol ym mywyd yr ysgol gan y cyngor ysgol. Mae’r disgyblion yn deall am ddemocratiaeth ac am swyddogaeth arbennig cynghorwyr yr ysgol wrth gyfleu barn pawb arall i’r rhai sy’n gyfrifol am wneud y penderfyniadau. Mae’r cynghorwyr yn cymryd eu rôl o ddifrif.

60. Bellach, rhoddir pwyslais cynyddol ar reoli a gwella perfformiad y staff. Mae prosesau ar gyfer monitro ac arfarnu wedi dechrau sefydlu gan gyfrannu at y CDY a sicrhau bod y staff yn derbyn cyfleoedd priodol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Cefnogir athrawon newydd gymhwyso’n dda.

61. Mae gan yr ysgol amrediad da o bolisïau a dogfennaeth berthnasol i gefnogi’r addysgu a gwaith yr ysgol.

62. Cyflawna’r ysgol ei chyfrifoldebau o ran gofynion amser addysgu, ac o’u cymryd gyda’i gilydd mae’r prosbectws ac adroddiad blynyddol y corff llywodraethol i rieni yn cwrdd â’r gofynion statudol.

63. Cyflawna’r corff llywodraethol ei ddyletswyddau’n gydwybodol. Mae’r aelodau yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn cydweithio’n effeithiol gyda’r pennaeth a’r staff i osod cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu. Maent yn cymryd rhan weithredol wrth fonitro safonau, yn cymryd eu rôl o ddifrif ac yn gydwybodol wrth gyflawni eu cyfrifoldebau statudol.

64. Sefydlwyd gweithdrefnau hunan-arfarnu yn ddiweddar ac mae'r rhain yn dechrau cael effaith ar safonau a gwaith yr ysgol yn gyffredinol. Mae’r cydlynwyr wedi dechrau ar y broses o fonitro a gwerthuso’u pynciau ond ar hyn o bryd nid yw’r rôl yma wedi ei datblygu’n ddigonol. Darperir cyfleodd da i rieni a staff fynegi barn ar y ddarpariaeth addysgol ac ystyrir safbwyntiau’r cyngor ysgol am wahanol agweddau o waith yr ysgol.

65. Er bod deilliannau’r arfarnu yn cysylltu yn uniongyrchol gyda blaenoriaethau’r CDY, mae angen rhesymoli’r cynllun er mwyn sicrhau bod modd gweithredu yn effeithiol ar yr holl argymhellion a gynhwyswyd.

66. Mae ansawdd yr adroddiad hunan-arfarnu a gyflwynwyd i’r tîm arolygu yn gyffredinol dda er bod rhai o’r elfennau ychydig yn aneglur. Fodd bynnag mae canfyddiad yr adroddiad yn cyd-fynd â chanfyddiadau’r tîm arolygu yn y saith cwestiwn allweddol.

67. Mae’r ysgol wedi mynd i’r afael â mwyafrif y materion allweddol ers yr arolygiad diwethaf yn llwyddiannus.

68. Mae gan yr holl staff gymwysterau addas i gyflawni’r cyfrifoldebau a amlygir yn eu disgrifiadau swydd. Rhoddwyd ystyriaeth dda i’r cyfrifoldebau ar gyfer cydlynu’r pynciau a chânt eu rhannu’n deg ymhlith y staff. Caiff trefniadau ar gyfer darparu cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu eu gweithredu yn effeithiol. Mae’r athrawon yn defnyddio’r cyfnodau yn bwrpasol a chaiff effaith gadarnhaol ar waith yr ysgol.

69. Mynycha'r athrawon a chynorthwywyr cefnogi dysgu ystod dda o sesiynau hyfforddi. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu medrau a'u dealltwriaeth. Cydweithia'r athrawon a'u cynorthwywyr yn effeithiol iawn fel tîm ac maent yn rhannu gwybodaeth ac yn cefnogi ei gilydd mewn ffordd ymroddedig iawn.

70. Cynhelir adolygiadau blynyddol i sicrhau digonolrwydd, cyflwr ac addasrwydd yr adnoddau ac yn gyffredinol ceir ystod dda o adnoddau o safon i gefnogi'r cwricwlwm. Defnyddir y rhain yn effeithiol i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae arddangosfeydd graenus ar draws yr ysgol yn ysgogi dysg, yn rhoi bri ar waith y disgyblion ac yn atgoffa disgyblion yn effeithiol o reolau'r ysgol.

71. Sicrha'r rheolwyr ddefnydd effeithiol o'r cyllid ac mae rheolaeth gyllidol yn dynn. Mae'r corff llywodraethol yn monitro'r gwariant yn effeithiol a chaiff hwn ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau gwerth gorau am arian. Caiff penderfyniadau gwariant eu cysylltu'n ofalus gyda chynlluniau ar gyfer datblygiad. Gweithreda'r ysgol yn effeithiol o ddydd i ddydd. Cyflawna'r swyddog gweinyddol ei dyletswyddau yn effeithiol ac effeithlon iawn. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Argymhellion

Er mwyn parhau i ddatblygu a gwella, dylai'r llywodraethwyr a staff:

A1 gynnal y safonau da a da iawn gan anelu at ragoriaeth ym mhob maes;

A2 godi lefelau presenoldeb er mwyn cyrraedd o leiaf y cyfartaledd cenedlaethol;

A3 ddatblygu ymhellach ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang;

A4 barhau i ddatblygu gweithdrefnau asesu ar draws yr ysgol;

A5 ddatblygu ymhellach rôl y cydlynwyr pwnc; a

A6 mireinio gweithdrefnau hunan-arfarnu;

*Mae elfennau o'r pedwerydd argymhelliad ynghyd â'r pumed a'r chweched eisoes yn flaenoriaethau yn CDY yr ysgol ar gyfer 2007–2008.*

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, yn cael ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

## Safonau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

72. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

73. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol i blant o dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da iawn tuag at y Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant.

74. Yn y pynciau a arsylwyd, mae'r safonau cyflawniad fel a ganlyn:

| Maes Arolygu | Cyfnod Allweddol 1 | Cyfnod Allweddol 2 |
|---|---|---|
| Saesneg | D/B | Gradd 2 |
| Mathemateg | Gradd 2 | Gradd 1 |
| Technoleg gwybodaeth | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Dylunio a thechnoleg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Daearyddiaeth | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Addysg gorfforol | Gradd 2 | Gradd 1 |

75. Yn ystod yr arolygiad roedd y safonau cyflawniad yn y gwersi fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 18% | 76% | 6% | 0% | 0% |

76. Yn y gwersi yr arsylwyd arnynt, roedd safonau cyflawniad disgyblion yn uwch na tharged LICC ar gyfer 2010 (Ffynhonnell: Gweledigaeth ar Waith) sy'n nodi y dylai ansawdd y dysgu a aseswyd gan Estyn fod yn Radd 3 neu'n well mewn 98% o ddosbarthiadau.

77. Yng nghyfnod allweddol 1 yn 2007, yn ôl asesiadau athrawon, cyrhaeddodd 55% o ddisgyblion lefel 2 neu'n uwch ym mhynciau craidd Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ar ddiwedd y cyfnod allweddol (Cymru 80.1%; Sir Bro Morgannwg 84.8%). Yn 2006 y ffigwr oedd 73% (Cymru 81%; Sir Bro Morgannwg 86%) ac yn 2005 y ffigwr oedd 85% (Cymru 81%; Sir Bro Morgannwg 88.1%). Roedd canlyniadau'r ysgol ar gyfer 2007 yn sylweddol is na'r cyfartaleddau cenedlaethol a sirol mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. O gymharu perfformiad y bechgyn a'r merched, mae'r bechgyn wedi perfformio'n sylweddol well na'r merched yn 2007 – ond i'r gwrthwyneb yn y blynyddoedd cyn hynny.

78. Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2007, cyrhaeddodd 86% o ddisgyblion yn yr ysgol lefel 4 neu'n uwch, fel y'u pennwyd gan ganlyniadau asesiadau athrawon ym mhynciau craidd Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth (Cymru 74.0%; Sir Bro Morgannwg 77.7%). Yn 2006, y ffigwr oedd 78% (Cymru 74%; Sir Bro Morgannwg 78.8%) ac yn 2005, y ffigwr oedd 81% (Cymru 72%; Sir Bro Morgannwg 79.1%). Roedd canlyniadau'r ysgol ar gyfer 2007 yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol a sirol mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Nid oes unrhyw batrwm o wahaniaethau amlwg ym mherfformiad bechgyn a merched yn y cyfnod allweddol hwn.

79. Wrth gymharu ag ysgolion cyffelyb yng Nghymru o ran canran y disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol rhad ac am ddim, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae canlyniadau'r ysgol yng nghyfnod allweddol 1 wedi tueddu i fod yn y 25% isaf a rhwng y 25% a'r 50% isaf yn y flwyddyn cyn hynny. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r canlyniadau wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf dros dair blynedd, ond yn sylweddol uwch na disgwyliadau'r ysgol yn ôl y targedau a osodwyd.

80. Mae'r plant o dan bump a'r disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn llwyddo i gyflawni'r targedau a osodir ar eu cyfer ac yn profi llwyddiant yn eu gwaith, beth bynnag yw eu gallu a'u cefndir cymdeithasol neu ieithyddol.

81. Gwna'r plant o dan bump oed gynnydd rhagorol yn eu medrau cyfathrebu. Maent yn dechrau dod i siarad gyda hyder. Maent yn gwrando'n rhagorol ar oedolion ac

ar eu cyfoedion ac maent wedi dechrau meistroli medrau darllen ac ysgrifennu elfennol. Mae eu medrau mewn mathemateg a TGCh yn datblygu'n dda.

82. Mae disgyblion ag ADY yn y ddau gyfnod allweddol yn gwneud cynnydd da yn eu medrau dysgu sylfaenol a phersonol.

83. Yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2, mae'r safonau a chynnydd y disgyblion ym medrau allweddol cyfathrebu yn rhagorol yn eu siarad a gwrando, ac yn dda yn eu darllen ac ysgrifennu ym mhob pwnc yr arsylwyd arnynt.

84. Yn y ddau gyfnod allweddol, gwna'r disgyblion gynnydd da yn eu medrau mewn rhifedd, TGCh, datrys problemau a'u medrau creadigol.

85. Mae safonau cymhwysedd dwyieithog y disgyblion yn rhagorol drwy'r ysgol, tra bod eu gwybodaeth o'r Cwricwlwm Cymreig yn dda.

86. Gwna disgyblion o bob oed gynnydd da yn eu dysgu wrth iddynt yn gynyddol gaffael gwybodaeth a medrau newydd. Mae rhai o'r disgyblion hynaf yn medru gwerthuso eu gwaith eu hunain, ac yn aml, maent yn gweithio'n effeithiol mewn parau er mwyn helpu ei gilydd i wella.

87. Mae ymddygiad y disgyblion ym mhob agwedd o fywyd ysgol yn rhagorol. Maent yn gwrtais iawn ac yn ystyriol tuag at eu cyfoedion, y staff ac ymwelwyr. Mae hyn yn helpu i greu amgylchedd croesawgar. Dyfernir marciau llys ar gyfer ymddygiad da. Seilir yr arfer dda hon o ran ymddygiad yn y blynyddoedd cynnar ac fe barheir ar draws yr ysgol.

88. Ymateba'r disgyblion yn dda i gyfarwyddiadau'r athrawon a'r staff cymorth. Canmola'r rhieni ymdrechion yr ysgol i greu a chynnal y safonau ymddygiad hyn.

89. Mae gan y disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith a'u chwarae; maent yn frwdfrydig ac yn awyddus i foddhau eu hathrawon. Maent yn defnyddio'u hamser yn dda yn y gwersi, gan ddyfalbarhau yn gydwybodol ar dasgau. Maent yn barod fel arfer ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

90. Gwna'r disgyblion gynnydd da yn eu medrau personol, cymdeithasol, ysbrydol, diwylliannol a moesol.

91. Roedd presenoldeb ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol yn ystod y tri thymor cyn yr arolygiad ar gyfartaledd yn 92.67%. Mae hyn yn sylweddol is na'r targedau cenedlaethol. Mae cofnodi presenoldeb yn cwrdd â'r gofynion statudol, ac mae systemau priodol mewn lle er mwyn i rieni hysbysu'r ysgol ynglŷn ag absenoldebau, gyda'r ysgol yn cysylltu â'r cartref os na fyddant wedi derbyn neges o'r fath. Mae cysylltiad da rhwng yr ysgol â swyddog lles yr AALl.

92. Mae prydlondeb ar ddechrau'r diwrnod ysgol yn gyffredinol dda, ond mae nifer fechan o ddisgyblion yn gyson yn hwyr. Mae gan yr ysgol system i fynd i'r afael â hyn. Mae prydlondeb i ddosbarthiadau unigol yn ystod y dydd yn dda.

93. Drwyddi draw, mae'r disgyblion yn dangos parch tuag at amrywiaeth o gredoau, agweddau a thraddodiadau diwylliannol a chymdeithasol eraill. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gyfleoedd cyfartal a thegwch, ond nid yw eu dealltwriaeth o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wedi datblygu'n ddigonol.

94. Mae mwyafrif y disgyblion yn arddangos dealltwriaeth gynyddol o'u cymuned eu hunain trwy ymweliadau â'r gymuned leol a lleoedd eraill o ddiddordeb yn gysylltiedig â'u gwaith yn y dosbarth. Mae eu hadnabyddiaeth a'u dealltwriaeth o fyd gwaith, a'u medrau menter yn datblygu'n dda. Cynhaliwyd Wythnos Menter a

Busnes mewn perthynas â chwmni gyrfaoedd lle crëwyd a gwerthwyd nwyddau gan ddisgyblion B6.

95. Mae'r cyngor ysgol yn cwrdd yn rheolaidd. Maent yn adlewyrchu llais y disgyblion yn effeithiol ac yn cymryd cyfrifoldeb am nifer o weithgareddau er lles pawb.

## Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

96. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

97. Arsylwyd 51 o wersi neu rannau o wersi a barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 27% | 57% | 16% | 0% | 0% |

98. Dyfarnwyd yr addysgu i fod yn Radd 1 neu 2 mewn 84% o wersi. Yn genedlaethol, yn ôl adroddiad Prif Arolygydd ei Mawrhydi am y flwyddyn 2005/6, mae ansawdd yr addysgu yn dda neu'n well mewn 79% o wersi, gydag 11% o'r gwersi hynny â nodweddion rhagorol.

99. Mae ansawdd yr addysgu yn gryfder yn yr ysgol ac yn elfen bwysig yn y cynnydd a wna'r disgyblion a'r safonau a gyflawnir. Gwelwyd enghreifftiau o addysgu da ym mhob dosbarth. Mae'r berthynas waith ragorol sy'n bodoli rhwng yr athrawon a'r disgyblion yn hyrwyddo dysgu effeithiol ac mae'r athrawon yn fodelau rôl o safon uchel.

100. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o'u disgwyliadau o ran gwaith ac ymddygiad. Caiff gwaith da ei ganmol ac mae'r ymagwedd o ddathlu ymdrech ac agwedd at waith yn nodwedd effeithiol o'r addysgu.

101. Mae gan yr athrawon wybodaeth dda o'r pynciau y maent yn eu haddysgu ac o'r Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant o dan bump oed. Defnyddiant amrywiaeth o strategaethau addysgu ac ystod o adnoddau perthnasol er mwyn cynnig profiadau dysgu gwerthfawr i'r disgyblion.

102. Mae nodweddion rhagorol yr addysgu yn cynnwys:

- yr ymdeimlad o barch sy'n gosod naws ardderchog ar gyfer hyrwyddo dysgu effeithiol;
- chyflwyniadau ysgogol a diddorol, a
- rheolaeth dosbarth effeithiol iawn.

103. Mae nodweddion da'r addysgu yn cynnwys:

- cyflwyniadau trylwyr ac esboniadau clir sy'n canolbwyntio ar amcanion y wers;
- cydweithio effeithiol rhwng athro a disgybl;
- cwestiynu celfydd sy'n cynnwys pob disgybl, a'r
- defnydd o ystod briodol o strategaethau addysgu ac adnoddau, sy'n helpu i ennyn a chynnal diddordeb y disgyblion.

104. Mae diffygion yn yr addysgu yn cynnwys:
    - cyflwyniadau hir ar ddechrau gwersi;
    - gor-gyfarwyddo'r disgyblion, a
    - disgwyliadau isel.

105. Llwydda'r athrawon i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i herio delweddau a safbwyntiau ystrydebol yn llwyddiannus.

106. Mae'r addysgu yn hyrwyddo datblygiad dwyieithog y disgyblion yn llwyddiannus iawn. Defnyddia'r athrawon amrywiaeth o strategaethau pwrpasol i ymestyn medrau cyfathrebu'r disgyblion a manteisir yn effeithiol iawn ar bob cyfle i ddatblygu'r dimensiwn Cymreig o fewn pynciau.

107. Darpara'r polisi asesu ganllawiau clir sy'n sicrhau bod asesu yn diwallu'r anghenion statudol. Ategir hyn gan bolisi sy'n hyrwyddo gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu ac mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar draws yr ysgol.

108. Mae ansawdd yr asesu sylfaen ar gyfer plant dan bump a'r defnydd o brofion ac ystod o asesiadau safonol ar draws cyfnodau allweddol 1 a 2 yn nodwedd effeithiol. Defnyddir y wybodaeth yn briodol ar gyfer adnabod disgyblion sydd ag angen cymorth ychwanegol a dadansoddir y wybodaeth a'i defnyddio ar gyfer gosod targedau meintiol yn y pynciau craidd. Nid yw'r targedau a osodir bob amser yn ddigon heriol. Datblygwyd system dracio effeithiol er mwyn dilyn cynnydd y disgyblion ar draws yr ysgol.

109. Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n rheolaidd ac yn yr arfer orau, mae sylwadau'r athrawon yn esbonio'n glir i ddisgyblion sut y gallant wella safon eu gwaith. Rhoddir adborth llafar priodol i ddisgyblion yn ystod gwersi.

110. Ceir trefniadau priodol ar gyfer asesu cyflawniadau a chynnydd dysgwyr mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae peth cymedroli ar y cyd yn cymryd lle rhwng athrawon yr ysgol ac athrawon yr ysgol uwchradd leol er mwyn cryfhau dealltwriaeth a chysondeb wrth asesu. Serch hynny, mae angen datblygu ymhellach y gweithdrefnau ar gyfer asesu a nodi cynnydd yn y pynciau sylfaen.

111. Darperir adroddiadau manwl ar gyfer rhieni a gofalwyr sy'n cwrdd â'r gofynion statudol. Maent yn amlinellu medrau a chyflawniadau'r disgyblion ac mae'r rhain o safon dda.

## Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

| Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig |
|---|

112. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

113. Nodwedd dda o fywyd a gwaith yr ysgol yw ansawdd y ddarpariaeth gwricwlaidd. Cynigir mynediad cyfartal i gwricwlwm eang a chytbwys sy'n datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau'r disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r ddarpariaeth yn gymdeithasol gynhwysol ac yn sicrhau cydraddoldeb mynediad a chyfle i bawb.

114. Mae'r cynlluniau gwaith ar gyfer yr holl bynciau cwricwlaidd ynghyd â'r maes llafur addysg grefyddol yn drefnus a chynhwysfawr. Maent yn cynnig fframwaith a chanllawiau eglur i'r athrawon dosbarth. Cynllunnir ystod o brofiadau ymarferol a diddorol sy'n llwyddo i gael dylanwad positif nid yn unig ar safonau cyflawniad y disgyblion ond hefyd ar eu hagwedd at waith.

115. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da iawn tuag at Ganlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant. Darperir gweithgareddau ysgogol a phwrpasol sy'n cynnig sail gadarn ar gyfer y dysgu yng nghyfnod allweddol 1.

116. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn meistroli'r medrau sylfaenol a'r medrau allweddol yn dda. Ceir gweithdrefnau addas ar gyfer monitro'r ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm.

117. Darperir ystod ragorol o gyfleoedd allgyrsiol dysgu er mwyn ymestyn a chyfoethogi'r cwricwlwm. Mae'r disgyblion yn elwa o'r llu o gyfleoedd amrywiol a gynigir gan yr athrawon. Cynhelir amrywiaeth helaeth o glybiau ar ôl ysgol ac yn ystod egwylion cinio. Rhoddir cyfle hefyd i'r disgyblion i gymryd rhan mewn pob math o weithgareddau gan gynnwys chwaraeon a chystadlaethau eisteddfodol. Gwahoddir ymwelwyr i'r ysgol i rannu'u profiadau ac i drafod eu gwaith a chaiff y disgyblion gyfleoedd cyson i fynd ar ymweliadau diddorol.

118. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol y disgyblion yn effeithiol. Darperir gwasanaethau o addoli ar y cyd sy'n cydymffurfio â'r gofynion ac sydd wedi'u seilio'n gadarn ar egwyddorion Cristnogol. Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion fyfyrio'n dawel ac i gyfrannu mewn gwasanaethau ysgol-gyfan.

119. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu datblygiad moesol a chymdeithasol y disgyblion yn gadarn. Mae'r ysgol yn meithrin gwerthoedd cadarn ac yn gweithio'n ddiwyd, o'r cychwyn cyntaf, i feithrin parch, gonestrwydd a chwrteisi ymysg y disgyblion. O ganlyniad, mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gref o'r gwerthoedd moesol sy'n llywio eu cymuned. Ymhyfrydant yn eu rôl fel 'Gwylwyr' yr ysgol. Arddangosant flaengaredd a chwrteisi a gwerthfawrogant y ffaith eu bod yn perthyn i gymuned wâr. Mae'r athrawon a'r holl oedolion eraill sy'n gweithio yn yr ysgol yn fodelau rôl gwych. Caiff ymwelwyr â'r ysgol eu trin â pharch a chwrteisi.

120. Hyrwyddir datblygiad diwylliannol y disgyblion yn dda a chânt gyfle i astudio eu diwylliant eu hunain megis mewn pynciau fel hanes ac addysg grefyddol. Mae trefniadau megis ymweld ag Amgueddfa Sain Ffagan a chydweithio gyda rhai o feirdd enwog Cymru yn cyfoethogi'r ddarpariaeth. Rhoddir cyfle i'r disgyblion ymuno yng ngweithgareddau'r Urdd a mynychu ymweliad preswyl â Gwersyll Llangrannog. Hybir ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliannau eraill mewn ystod o feysydd ar draws y cwricwlwm.

121. Ceir partneriaeth agos rhwng yr ysgol a'r rhieni. Roedd ymatebion y rhieni drwy'r holiaduron a'r cyfarfod cyn arolygiad yn hynod o gefnogol. Derbynia'r rhieni ystod helaeth o wybodaeth drwy'r prosbectws a chylchlythyron. Mae Cyfeillion Ysgol Sant Curig yn weithgar dros ben ac yn codi arian sylweddol ar gyfer gweithgareddau'r ysgol.

122. Mae cysylltiadau cadarn wedi'i sefydlu gyda'r ysgolion hynny sydd yn perthyn i glwstwr Ysgolion Cymraeg, Bro Morgannwg. Cydweithiant ar fentrau addysgu ac ar rannu syniadau. Mae disgyblion B6 yn elwa o'r bartneriaeth agos sydd wedi'i

sefydlu gydag Ysgol Uwchradd y Fro. Mae hyn yn sicrhau bod y cyfnod trosglwyddo yn un llyfn a rhagweithiol. Mae'r berthynas gyda'r AALl yn dda iawn ac mae'r corff llywodraethol yn werthfawrogol iawn o'r gynhaliaeth a'r cyngor mae'r ysgol yn ei dderbyn.

123. Mae perthynas agos yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned. Cynigir cyfleoedd cyson i'r disgyblion ymweld â'r llyfrgell, cartrefi'r henoed, Capel Tabernacl ac archfarchnadoedd y dref. Trefnir i'r disgyblion gymryd rhan mewn digwyddiadau lleol, megis yr ŵyl ddawns a gynhelir yn y Barri. Ceir cysylltiadau da gyda nifer o golegau hyfforddi megis Coleg y Barri ac Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd, wrth i'r ysgol gynnig lleoliadau i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith.

124. Mae llwyddiant y partneriaethau yn cael effaith bositif ar ansawdd y ddarpariaeth ac yn cyfrannu tuag at ddiwallu anghenion a diddordebau'r disgyblion.

125. Darperir rhaglen waith effeithiol ar gyfer datblygu ABCh y disgyblion, sy'n cwrdd â'r gofynion ac sy'n treiddio drwy bynciau eraill y cwricwlwm. Hyrwyddir pwysigrwydd cadw'n iach drwy annog y disgyblion i fwyta ffrwythau adeg yr egwyl fore ac i gymryd rhan yn yr ystod eang o weithgareddau allgyrsiol megis clybiau chwaraeon, dawns ac yoga. Cyfranogir hefyd o fewn y cynllun 'Ysgolion Iach'.

126. Ceir cyswllt effeithiol â byd gwaith er mwyn cyfoethogi'r cwricwlwm. Croesewir nifer o ymwelwyr i'r ysgol gan gynnwys y nyrs, heddlu a gweithwyr y frigâd dân, a threfnir ymweliadau cyson â mannau gwaith o fewn y gymuned megis yr archfarchnad neu siopau lleol. Rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion hŷn yr ysgol ymwneud â phrosiectau i hybu eu medrau menter. Fodd bynnag, mae lle i ddatblygu ymhellach y ddarpariaeth ar draws yr ysgol.

127. Mae'r graddau y mae'r ysgol yn llwyddo i ddatblygu gallu dwyieithog pob disgybl yn agwedd ragorol o'r ddarpariaeth. Ymfalchïa'r disgyblion yn eu Cymreictod ac yn eu gallu i siarad Cymraeg. Rhoddir lle amlwg i'r dimensiwn Cymreig ym mywyd a gwaith beunyddiol yr ysgol. Cynigir amrywiaeth ragorol o brofiadau sy'n sicrhau bod y disgyblion yn ymwybodol o'u hetifeddiaeth ac o ddiwylliant eu bro a'u gwlad. Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ymarfer a datblygu eu sgiliau trawsieithu.

128. Mae'r ysgol yn cydnabod cyfraniad pwysig ystod eang o elusennau, ac yn darparu cyfleoedd rheolaidd i'r disgyblion gyfrannu tuag atynt. Enghreifftiau o'r rhain yw: Plant Mewn Angen, Ysbyty Felindre, Ymchwil y Galon ac Apêl y Trwynau Coch.

129. Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â materion datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang drwy nifer o weithgareddau sy'n gysylltiedig ag Ysgolion Eco megis Rheolau Eco'r Ysgol a Bws Cerdded ddwywaith y tymor. Mae hefyd yn hyrwyddo pwysigrwydd cefnogi gweithgareddau masnach deg. Serch hynny, mae angen datblygu ymhellach yr elfen bwysig hon o'r cwricwlwm.

130. Llwydda'r ysgol i osod seiliau cadarn ar gyfer dysgu gydol oes. Anogir y disgyblion o oed cynnar i feithrin eu medrau cydweithio, datblygu agweddau cadarnhaol ac i fod yn ddysgwyr annibynnol.

## Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

131. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

132. Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar sy'n gwerthfawrogi a pharchu ei disgyblion. Mae'r pennaeth, athrawon a'r staff ategol yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn darparu lefel uchel o gefnogaeth, gofal ac arweiniad personol ar eu cyfer. Mae gan yr ysgol ethos cadarnhaol iawn ac mae'r cyd-berthnasu effeithiol sy'n bodoli o fewn cymuned yr ysgol yn cael dylanwad positif ar ansawdd y gynhaliaeth.

133. Yn sgil trafodaethau'r tîm arolygu gyda grwpiau o ddisgyblion, nodwyd eu bod teimlo'n ddiogel ac yn barod i droi'n ddibryder at y pennaeth a'r staff am gymorth a chyfarwyddyd.

134. Mae'r holiaduron a ddosbarthwyd ymhlith y rhieni a gofalwyr yn dyst o'r ymdrech a wnaed gan yr ysgol i ystyried eu safbwyntiau. Defnyddia'r ysgol ganfyddiadau'r holiaduron yn effeithiol i hybu a chryfhau'r bartneriaeth. Gwerthfawroga'r rhieni ethos gofalgar yr ysgol.

135. Ceir rhaglen effeithiol ar gyfer sicrhau bod y plant meithrin yn ymgartrefu'n gyflym i fywyd a gwaith yr ysgol. Yn sgil y gweithdrefnau pontio llwyddiannus sy'n bodoli rhwng yr ysgol ag Ysgol y Fro, mae'r disgyblion yn llwyddo i setlo'n fuan i fywyd a threfn addysg uwchradd.

136. Mae gan yr ysgol ddulliau priodol mewn lle ar gyfer monitro presenoldeb, prydlondeb, ymddygiad a pherfformiad y disgyblion. Serch hynny, mae angen i'r ysgol weithredu'n fwy effeithiol er mwyn ceisio codi'r canrannau presenoldeb. Mae'r gweithdrefnau cofrestru yn cydymffurfio yn llawn â'r gofynion statudol.

137. Rheolir trefniadau gofal yr ysgol yn dda a gwneir defnydd effeithiol o wasanaethau cynhaliaeth AALI Bro Morgannwg. Caiff gwaith yr ysgol ei gefnogi'n effeithiol ac yn effeithlon gan asiantaethau arbenigol megis yr heddlu cymunedol. Hyrwyddir ABCh y disgyblion yn dda. Serch hynny, mae'r ysgol yn cydnabod yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn strwythuro'r ddarpariaeth ymhellach.

138. Rhoddir sylw blaenllaw i sicrhau iechyd a lles disgyblion pan fyddant yng ngofal yr ysgol. Mae staff yr ysgol yn hynod ofalus o les personol disgyblion yn ystod gwersi ac amser egwylion. Cynhelir ystod o asesiadau risg, ond hyd yn hyn, nid yw'r arfer o gynnal asesiadau risg cynhwysfawr ar gyfer pob ymweliad oddi ar y safle wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Yn ystod yr arolygiad tynnwyd sylw'r pennaeth at un mater iechyd a diogelwch.

139. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo ffitrwydd y disgyblion yn dda. Cynigir cyfleoedd i'r disgyblion ymuno â chlybiau dawns, chwaraeon a sesiynau yoga. Cynhelir ystod o gymhelliannau ar gyfer hybu arferion bwyta'n iach gan gynnwys gwerthu ffrwythau a llaeth, ciniawau maethlon a chymryd rhan mewn sawl blaengaredd megis, 'Wythnos Bwyta'n Iach' a'r 'Bws Cerdded'. Derbyniwyd nifer o achrediadau 'Ysgolion Iach' yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

140. Mae cyngor ysgol wedi ei sefydlu ac yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol wrth ystyried barn disgyblion.

141. Mae'r gefnogaeth a roddir i'r disgyblion sydd ag ADY yn dda. Maent yn derbyn mynediad llawn i'r cwricwlwm a holl weithgareddau'r ysgol. Ceir mewnbwn a chydweithio parod rhwng y staff addysgu a'r staff ategol er mwyn sicrhau cynhaliaeth effeithiol i'r disgyblion sydd ag ADY. Cynhelir cyfarfodydd wythnosol rhwng yr athrawes gynnal a'r staff er mwyn trafod unrhyw bryderon. Mae ansawdd y gefnogaeth a gynigir yn galluogi'r disgyblion i wneud cynnydd da yn ôl eu gallu. Mae'r holl weithdrefnau yn bodloni gofynion y Côd Ymarfer yn llawn.

142. Mae cynlluniau addysg unigol (CAU) y disgyblion yn effeithiol ac mae'r gwerthusiadau o gyflawniadau a chynnydd y disgyblion yn rhoi arweiniad ar gyfer y camau nesaf. Adolygir y cynlluniau yn dymhorol ac mae yna wahoddiad i'r rhieni gymryd rhan yn hyn.

143. Mae'r modd y mae'r ysgol yn meithrin ymagweddau positif ymhlith y disgyblion ar faterion megis cydnabod amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb ar sail hil, cefndir a rhyw yn dda. Mae'r profiadau dysgu a gynigir i'r disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau rygbi, pêl droed a dawnsio yn dyst o ymdrech yr ysgol i waredu ar agweddau ystrydebol.

144. Mae polisïau effeithiol mewn lle ar gyfer cyfle cyfartal a chydraddoldeb hiliol ac mae gweithdrefnau'r ysgol ar amddiffyn plant yn cwrdd â'r gofynion statudol.

145. Mae'r adeilad yn addas ar gyfer dysgwyr anabl a cheir cynllun hygyrchedd pwrpasol.

146. Mae gan yr ysgol bolisi cadarn ac effeithiol i fonitro ac atal unrhyw ymddygiad gwahaniaethol neu aflonyddwch. Anogir disgyblion i gynnal ac i barchu ei gilydd. Mae yna ddisgwyliadau uchel o ran hunanreolaeth ac ymddygiad. Cefnogwyd y farn hon yn ystod trafodaethau'r arolygwyr gyda'r rhieni a'r corff llywodraethol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

### Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

147. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

148. Mae ansawdd yr arweinyddiaeth a roddir gan y pennaeth a'r uwch dîm rheoli ar y cyfan yn dda. Gyda'i gilydd, maent yn cydlynu gwaith yr athrawon, y staff cymorth, y corff llywodraethol a'r rhieni er mwyn rhoi cyfeiriad strategol i ddatblygiad yr ysgol. Er hynny, mae angen datblygu ymhellach rôl rhai cydlynwyr pwnc. Adlewyrchir nodau a gwerthoedd cytunedig yn dda yng ngwaith ac ethos yr ysgol.

149. Mae gan aelodau'r staff gyfrifoldebau priodol y maent yn eu cyflawni hyd eithaf eu gallu. Hyrwyddir cydraddoldeb i bawb yn dda ac fe anogir holl aelodau'r staff i gyfrannu'n weithredol i fywyd yr ysgol.

150. Mae gan yr ysgol amcanion a gwerthoedd penodol effeithiol sy'n hybu cydraddoldeb i bawb. Mae hyn yn gryfder arbennig sy'n perthyn i'r ysgol.

151. Canolbwyntia'r ysgol yn briodol ar flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, y cyngor ysgol, sgiliau meddwl a strategaethau asesu ar gyfer dysgu.

152. Er bod gan yr ysgol dargedau ar gyfer gwella perfformiad, anghyson yw eu heffaith hyd yn hyn ar godi safonau ym mhob pwnc ar draws yr ysgol. Serch hynny, mae'r ysgol bellach yn cymryd camau cadarn er mwyn cryfhau hyn.

153. Cynrychiolir llais y disgyblion yn effeithiol ym mywyd yr ysgol gan y cyngor ysgol. Mae'r disgyblion yn deall am ddemocratiaeth ac am swyddogaeth arbennig cynghorwyr yr ysgol wrth gyfleu barn pawb arall i'r rhai sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniadau. Mae'r cynghorwyr yn cymryd eu rôl o ddifrif.

154. Bellach, rhoddir pwyslais cynyddol ar reoli a gwella perfformiad y staff. Mae prosesau monitro ac arfarnu'r sgol yn dechrau cyfrannu at y CDY gan sicrhau bod y staff yn derbyn cyfleoedd priodol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Cefnogir athrawon newydd gymhwyso'n dda.

155. Mae gan yr ysgol amrediad da o bolisïau a dogfennaeth berthnasol i gefnogi'r addysgu a gwaith yr ysgol.

156. Cyflawna'r ysgol ei chyfrifoldebau o ran gofynion amser addysgu, ac o'u cymryd gyda'i gilydd mae'r prosbectws ac adroddiad blynyddol y corff llywodraethol i rieni yn cwrdd â'r gofynion statudol.

157. Cyflawna'r corff llywodraethol ei ddyletswydd yn gydwybodol. Mae'r aelodau yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn cydweithio'n effeithiol gyda'r pennaeth a'r staff i osod cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu. Maent yn cymryd rhan weithredol wrth fonitro safonau, yn cymryd eu rôl o ddifrif ac yn gydwybodol wrth gyflawni eu cyfrifoldebau statudol

## Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

**Gradd 3: Nodweddion da'n gorbwyso diffygion.**

158. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

159. Mae ansawdd yr adroddiad hunan-arfarnu a gyflwynwyd i'r tîm arolygu yn gyffredinol dda er bod rhai o'r elfennau ychydig yn aneglur. Fodd bynnag, mae canfyddiad yr adroddiad yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r tîm arolygu yn y saith cwestiwn allweddol.

160. Sefydlwyd gweithdrefnau hunan-arfarnu yn ddiweddar ac mae'r rhain yn dechrau cael effaith ar safonau a gwaith yr ysgol yn gyffredinol. Lluniwyd amserlen i ymdrin â'r gwaith yma dros gyfnod o ddwy flynedd. Mae'r ysgol yn ystyried ystod eang o dystiolaeth gan gynnwys dadansoddiad o ganlyniadau asesiadau profion safonol a chanlyniadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (CC). Gwneir defnydd priodol o'r wybodaeth a gesglir er mwyn dynodi meysydd i'w datblygu. Er hyn, nid yw'r targedau a osodir bob amser yn ddigon heriol.

161. Mae'r cydlynwyr wedi dechrau ar y broses o fonitro a gwerthuso'u pynciau ond, ar hyn o bryd, nid yw'r rôl yma wedi ei datblygu'n ddigonol.

162. Darperir cyfleodd da i rieni a staff fynegi barn ar y ddarpariaeth addysgol ac ystyrir safbwyntiau'r cyngor ysgol am wahanol agweddau o waith yr ysgol.

163. Er bod deilliannau'r arfarnu yn cysylltu'n uniongyrchol gyda blaenoriaethau'r CDY, mae angen rhesymoli'r cynllun er mwyn sicrhau bod modd gweithredu yn effeithiol ar yr holl argymhellion a gynhwyswyd.

164. Cyflawna'r corff llywodraethol ei gyfrifoldebau strategol yn gydwybodol ac, yn ddiweddar, maent wedi dechrau ymgymryd â'r rôl o fonitro ac arfarnu safonau, gan wneud hynny'n effeithiol.

165. Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â mwyafrif y materion allweddol a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn llwyddiannus. Bellach, mae'r safonau yn dda mewn technoleg gwybodaeth, ac mewn dylunio a thechnoleg. Yn ogystal mae'r ysgol wedi datblygu partneriaethau effeithiol gyda diwydiant. Mae gweithdrefnau hunan-arfarnu wedi sefydlu erbyn hyn a datblygwyd rhai elfennau o rôl y cydlynwyr pwnc. Serch hynny, mae angen mireinio rhai o weithdrefnau asesu'r ysgol.

## Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

166. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

167. Mae gan yr holl staff gymwysterau addas i gyflawni'r cyfrifoldebau a amlygir yn eu disgrifiadau swydd. Rhoddwyd ystyriaeth dda i'r cyfrifoldebau ar gyfer cydlynu'r pynciau a chânt eu rhannu'n deg ymhlith y staff.

168. Caiff trefniadau ar gyfer darparu cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu eu gweithredu'n effeithiol. Mae'r athrawon yn defnyddio'r cyfnodau yn bwrpasol a chaiff effaith gadarnhaol ar waith yr ysgol.

169. Mynycha'r athrawon a chynorthwywyr cefnogi dysgu ystod dda o sesiynau hyfforddi. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu medrau a'u dealltwriaeth. Cydweithia'r athrawon a'u cynorthwywyr yn effeithiol iawn fel tîm ac maent yn rhannu gwybodaeth ac yn cefnogi ei gilydd mewn ffordd ymroddedig iawn. Gwneir defnydd effeithiol o ymwelwyr â'r ysgol.

170. Cynhelir adolygiadau blynyddol i sicrhau digonolrwydd, cyflwr ac addasrwydd yr adnoddau ac, yn gyffredinol, ceir ystod dda o adnoddau o safon i gefnogi'r cwricwlwm. Defnyddir y rhain yn effeithiol i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae arddangosfeydd graenus ar draws yr ysgol yn ysgogi dysg, yn rhoi bri ar waith y disgyblion ac yn atgoffa disgyblion yn effeithiol o reolau'r ysgol.

171. Lleolwyd y dosbarthiadau mewn adeilad deulawr gyda'r adran feithrin a derbyn mewn adeilad pwrpasol ar wahân. Mae'r ystafelloedd dosbarth o faint digonol a cheir ystafelloedd wrth gefn ar gyfer ystod eang o weithgareddau amrywiol. Mae'r ystafelloedd yn lân ac yn cael eu cadw mewn cyflwr da.

172. Mae'r adeiladau'n ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion sydd yn yr ysgol. Defnyddir yr ystafelloedd dosbarth a'r neuadd yn effeithiol iawn ar gyfer gweithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol. Defnyddir y buarth a chae'r ysgol hefyd yn effeithlon ar gyfer amser chwarae a gweithgareddau pwrpasol.

173. Mae gan yr ysgol gyflenwad da iawn o gyfrifiaduron ac offer cysylltiol, gan gynnwys bwrdd gwyn rhyngweithiol mewn sawl ystafell ddosbarth yn ogystal â'r ystafell gyfrifiadurol. Mae'r athrawon yn defnyddio'r offer hwn yn hyderus, gan gynllunio cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion ei ddefnyddio yn y mwyafrif o'u gwersi.

174. Sicrha'r rheolwyr ddefnydd effeithiol o'r cyllid ac mae rheolaeth gyllidol yn dynn. Mae'r corff llywodraethol yn monitro'r gwariant yn effeithiol a chaiff y gwariant ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau gwerth gorau am arian. Caiff penderfyniadau gwariant eu cysylltu'n ofalus gyda chynlluniau ar gyfer datblygiad.

175. Gweithreda'r ysgol yn effeithiol o ddydd i ddydd. Cyflawna'r swyddog gweinyddol ei dyletswyddau yn effeithiol ac effeithlon iawn. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

### Saesneg

176. Nid yw rhaglen astudio'r pwnc Saesneg yn cael ei chyflwyno'n ffurfiol tan ddechrau cyfnod allweddol 2.

**Cyfnod Allweddol 2 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Nodweddion da a rhagorol**

177. Mae mwyafrif o'r disgyblion yn wrandawyr rhagorol. Maent yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau'r athrawon ac ar gyfraniadau ei gilydd.

178. Mae sgiliau llafar y disgyblion yn datblygu'n dda. Medrant ynganu'n eglur a llwyddant i liwio llais er mwyn creu effeithiau mewn gweithgareddau chwarae rôl. Cymerant ran yn hyderus wrth gyflwyno sioe bypedau ac actio allan eu sgriptiau drama. Defnyddia nifer ohonynt iaith goeth ac estynedig wrth gymryd rhan mewn trafodaethau. Maent yn awyddus i fynegi barn mewn grwpiau bychain ac o flaen y dosbarth.

179. Mae'r mwyafrif yn darllen yn rhugl a chywir, gyda lefel dda o ddealltwriaeth a mynegiant. Arddangosant y gallu i daflu'r llais ac addasu eu tôn, eu cyflymder a'u harddull wrth iddynt ailadrodd stori draddodiadol megis, '*The Three Billy Goats Gruff*'.

180. Mae dealltwriaeth y disgyblion o reolau a chonfensiynau gramadeg yn nodwedd amlwg o'u gwaith ysgrifenedig. Mae eu hymwybyddiaeth fod iaith yn cyflawni gwahanol bwrpasau a'i bod yn amrywio yn ôl cyd-destun a chynulleidfa yn datblygu'n effeithiol. Mae'r disgyblion yn medru ysgrifennu mewn amrediad o arddulliau gan gynnwys cyflwyno portreadau, dyddiaduron, cyfarwyddiadau, adolygiadau, erthyglau papur newydd a chreu posau. Mae sgiliau barddonol y disgyblion yn datblygu'n dda.

181. Arddangosant ddealltwriaeth gadarn o baragraffu ac atalnodi cyson yn eu gwaith cyfredol. At ei gilydd, cyflwynant eu gwaith yn drefnus ac yn daclus. Mae sgiliau drafftio, golygu ac ailddrafftio'r disgyblion yn dda.

182. Gwna'r disgyblion ddefnydd da o eiriaduron, thesawrau ac ystod o ffynonellau, gan gynnwys y Rhyngrwyd, er mwyn adfer a choladu gwybodaeth.

**Diffygion**

183. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn ailadrodd camgymeriadau sillafu esgeulus.

## Mathemateg

**Cyfnod Allweddol 1 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Cyfnod Allweddol 2 - Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

**Nodweddion rhagorol**

184. Mae dealltwriaeth disgyblion ar ben uchaf cyfnod allweddol 2 o rif yn rhagorol. Dealla'r mwyafrif gysyniadau mathemategol cymhleth, a'u cymhwyso'n systematig ar draws y cwricwlwm. Gallant drafod eu gwaith yn synhwyrol gan ddefnyddio iaith fathemategol gywir. Gall y mwyafrif adnabod rhifau mawr a thrafod y cysylltiad rhwng degolion, canrannau a ffracsiynau yn hyderus dros ben.

**Nodweddion da**

185. Mae disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn mwynhau defnyddio mathemateg ac yn medru trafod eu gwaith yn hyderus.

186. Mae mwyafrif disgyblion hŷn cyfnod allweddol un yn medru trafod y pedair rheol rhif yn hyderus, gan ddefnyddio nifer o wahanol strategaethau er mwyn dod o hyd i ateb. Mae eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol megis eilrif ac odrif yn gadarn a gallant wahaniaethu rhyngddynt o edrych ar y digid sydd yng ngholofn yr unedau. Gall y gorau haneru a dyblu'n hyderus a chyfri ymlaen a nôl heb drafferth.

187. Gall y mwyafrif adnabod a disgrifio nodweddion siapiau dau a thri-dimensiwn yn hyderus. Gallant amcangyfrif a mesur yn gynyddol gywir gan ddefnyddio unedau confensiynol.

188. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn medru defnyddio gwahanol strategaethau er mwyn lluosi a rhannu yn ogystal ag adio a thynnu. Gallant luosi a rhannu gyda 10, 100 a 1000 yn eu pen yn hyderus ynghyd â haneru a dyblu rhifau mawr.

189. Deallant nodweddion siapiau dau a thri-dimensiwn a gallant ddarganfod arwynebedd a pherimedr siapiau heblaw siapiau syml. Gallant ddisgrifio'r hyn a olygir gan gymesuredd ynghyd â nodi llinellau cymesuredd gwahanol siapiau. Maent yn gallu disgrifio nodweddion onglau megis ongl lem, aflem ac ongl sgwâr a deallant fod 360 gradd mewn tro cyfan.

**Diffygion**

190. Nid oes diffygion pwysig.

## Technoleg Gwybodaeth

**Cyfnod Allweddol 1 – Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Cyfnod Allweddol 2 – Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Nodweddion da**

191. Yng nghyfnod allweddol 1, defnyddia'r disgyblion offer a meddalwedd technoleg gwybodaeth gyda medrusrwydd cynyddol mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

192. Arddangosant fedrau annibynnol da a llwyddant i ddewis yn ofalus o'r fwydlen ar y sgrin i gyfuno llun a thestun er mwyn creu poster i hysbysebu llyfr 'Bili Broga'.

193. Mae gan y disgyblion lefel uchel o gymhwysedd wrth ddefnyddio'r llygoden a'r bysellfwrdd. Dônt i fedru golygu eu gwaith wrth fynd ymlaen yn lled effeithiol.

194. Defnyddiant raglenni arlunio i gynhyrchu lluniau lliw diddorol gan gynnwys creu patrwm ar gyfer papur lapio Nadolig.

195. Dengys gwaith blaenorol y disgyblion y medrant gynhyrchu a dehongli graffiau syml megis eu gwaith ar anifeiliaid anwes.

196. Datblygant eu sgiliau modelu megis wrth roi cyfarwyddiadau ar y sgrîn i grwydryn yn ogystal â rheoli'r crwydryn llawr.

197. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o nodweddion prosesydd geiriau wrth greu, golygu a gwella eu gwaith.

198. Arddangosant eu hyfedredd wrth ddefnyddio eu sgiliau i greu cyflwyniadau aml-gyfrwng.

199. Defnyddiant becynnau graffeg ar gyfer creu ystod o efelychiadau megis ar gyfer 'Stori'r Geni'.

200. Gallant wneud defnydd da o'r Rhyngrwyd wrth gyflawni gwaith ymchwiliol. Mae gallu'r disgyblion i ddefnyddio camera digidol yn datblygu'n dda.

201. Maent yn trin data yn effeithiol a llwyddant i'w gyflwyno mewn ystod o ffurf raffigol.

202. Medrant greu taenlenni yn effeithiol at bwrpas trefnu parti Santes Dwynwen.

### Diffygion

203. Nid yw sgiliau'r disgyblion i anfon a derbyn negeseuon e-bost wedi'u datblygu'n ddigonol.

## Dylunio a thechnoleg

### Cyfnod Allweddol 1 – Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
### Cyfnod Allweddol 2 – Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

### Nodweddion da

204. Mae disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn cyflawni gweithgareddau gydag amrywiaeth o wahanol gyfryngau megis papur, cardfwrdd, pren, tecstilau, clai a bwyd. Dengys y tasgau amrediad priodol o fedrau mesur, marcio, torri a siapio.

205. Mae disgyblion ar draws y cyfnodau yn sylweddoli pwysigrwydd trafod offer yn ddiogel rhag ofn iddyn nhw gael niwed, neu beri niwed i eraill.

206. Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn dangos rheolaeth dda ar ddefnyddio offer megis siswrn, tyllwr, a glud wrth greu llun sy'n symud gan ddefnyddio lifer a llithrwr. Deallant a defnyddiant yr eirfa a'r termau priodol wrth ymwneud â'u gweithgareddau.

207. Mae sgiliau gwerthuso'r disgyblion yn datblygu'n dda a gall y mwyafrif gynnig syniadau da ar sut i wella'u gwaith.

208. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'u gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth o'r pwnc yn effeithiol. Gallant ddefnyddio ystod o wahanol

ffynonellau wrth ymchwilio i dasg, yn cynnwys technoleg gwybodaeth. Gallant fynd ymlaen â'u tasgau'n hyderus gan ddatblygu syniadau creadigol.

209. Llwyddant i ddylunio cynlluniau synhwyrol ar gyfer creu sliperi neu ddillad ar gyfer model, gan fireinio'r cynlluniau hynny er mwyn gwella.

210. Gallant arbrofi â gwahanol ddefnyddiau yn effeithiol, er mwyn darganfod gwendidau neu rinweddau yn eu dyluniadau, a disgrifio'r hyn maent yn ei wneud yn hyderus gan ddefnyddio geirfa bwrpasol. Gallant ddatrys problemau'n effeithiol ac addasu'r cynllun gwreiddiol lle bo angen.

211. Cofnodant eu gwaith yn systematig a deallant le dylunio a thechnoleg wrth fodloni anghenion cymdeithas.

**Diffygion**

212. Nid oes diffygion pwysig.

**Daearyddiaeth**

**Cyfnod Allweddol 1 – Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Cyfnod Allweddol 2 – Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Nodweddion da**

213. Datblyga medrau mapio disgyblion cyfnod allweddol 1 yn dda wrth iddynt ymwneud ag ystod o fapiau yn ogystal â llunio cynlluniau a mapiau eu hunain. Gallant leoli'r Barri ar fap o Gymru ac enwi nifer o drefi a siroedd cyfagos. Defnyddient gyfesurynnau syml yn gywir i ddod o hyd i leoedd ar fap o Gymru.

214. Medra disgyblion blwyddyn 1 ddilyn taith o gwmpas parc yr ysgol gan sylwi ar nodweddion ffisegol a dynol a welant mewn gwahanol gyfeiriadau. Medrent ddefnyddio a dehongli symbolau yn ymwneud â'r tywydd yn effeithiol.

215. Dengys disgyblion B2 ddealltwriaeth gynyddol o'u hardal leol ac o wledydd tramor fel Botswana. Dechreuant ddefnyddio termau daearyddol cywir a deallant fod angen allwedd grid wrth ddefnyddio map.

216. Gall disgyblion cyfnod allweddol 2 ddefnyddio ystod gynyddol o fedrau mapio yn hyderus er mwyn mesur pellter, dehongli symbolau a phriodweddau ac adnabod tirffurfiau.

217. Defnyddia disgyblion B3 a B4 ystod o dermau daearyddol yn gywir a medrant ddehongli mapiau tywydd yn effeithiol a darllen cyfeirnodau grid yn gywir.

218. Dengys disgyblion B5 a B6 wybodaeth gadarn o brif elfennau daearyddol eu hardal leol a thref y Barri yn benodol. Gwyddant am y nodweddion economaidd sy'n effeithio ar y Barri a'r rhesymau dros ddatblygiad y dref. Gallant nodi gwahaniaethau rhwng y Barri ac ardal wrthgyferbyniol megis Llangrannog yn y cyd-destun daearyddol.

**Diffygion**

219. Nid oes diffygion pwysig.

## Addysg gorfforol

**Cyfnod Allweddol 1 – Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Cyfnod Allweddol 2 – Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

### Nodweddion rhagorol

220. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gallu'r disgyblion i gymhwyso'u sgiliau ac i ddatblygu eu medrau yn elfen ragorol. Maent yn dysgu sgiliau newydd yn gyflym ac yn rhoi sylw manwl i wella'u techneg a mireinio'u harfer.

221. Mewn gwers hoci yn B6, roedd datblygiad sgiliau trin a thrafod pêl yn elfen ragorol.

222. Datblygir sgiliau nifer gynyddol o ddisgyblion ymhellach wrth iddynt fanteisio ar y cyfleoedd o weithgareddau allgyrsiol a gynigir iddynt mewn amrywiaeth o wahanol fathau o chwaraeon.

### Nodweddion da

223. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r disgyblion yn gweithio'n egnïol ac yn gwneud cynnydd da yn ansawdd eu gwaith o fewn y gwersi. Gwyddant yn dda am bwysigrwydd cynhesu'r corff cyn dechrau ymarfer caled a gallant ddisgrifio mewn manylder effaith llesol ymarfer ar y corff. Maent yn adalw dysgu blaenorol yn dda gan gofio'r disgwyliadau o ran creu symudiadau o ansawdd. Gwrandawant yn astud a dilynant gyfarwyddiadau'n fanwl.

224. Dengys y disgyblion agweddau positif at weithgareddau addysg gorfforol. Cymerant ran lawn yn eu gwersi, gan ganolbwyntio'n dda ar werthuso'u cynnydd. Datblyga'r disgyblion eirfa addysg gorfforol briodol ac mae chwarae teg yn elfen amlwg yn holl weithgareddau'r pwnc.

225. Gwisga'r disgyblion yn addas ar gyfer eu gwersi a rhoddant sylw penodol i ddiogelwch.

226. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn dangos dilyniant wrth iddynt ddatblygu a chymhwyso nifer o sgiliau mewn dawns, gymnasteg, gemau ac athletau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

### Diffygion

227. Nid oes diffygion pwysig.

## Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Dymuna'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr ddiolch i'r tîm arolygu am eu proffesiynoldeb, eu cwrteisi a'u tegwch yn ystod eu hymweliad ag Ysgol Sant Curig.

Mewn ardal lle y daw nifer sylweddol y disgyblion o gartrefi di-Gymraeg, teimlwn falchder yn y ffaith fod hyfryded dwyieithog ein disgyblion o bob oedran yn rhagorol.

Ymfalchïwn yn ein safonau ardderchog o ddysgu ac addysgu ac yn y ffaith i ni wneud cynnydd da yn erbyn y materion allweddol a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol.

Gwerthfawrogwn yr argymhellion ar gyfer datblygiad pellach, a gwelir hwy fel modd i ni adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes yn digwydd yn yr ysgol gan dîm o ddisgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr ymroddedig a brwdfrydig.

# Atodiad 1

## Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r ysgol | Ysgol Sant Curig, Y Barri |
| Math o ysgol | Meithrin a Chynradd Penodedig Gymraeg |
| Ystod oedran y disgyblion | 3 – 11 mlwydd |
| Cyfeiriad yr ysgol | Heol y Coleg<br>Y Barri<br>Sir Bro Morgannwg |
| Cod post | CF62 8HQ |
| Rhif ffôn | 01446 744222 |

| | |
|---|---|
| Pennaeth | Mrs Siân Owen |
| Dyddiad penodi | Medi 2006 |
| Cadeirydd y llywodraethwyr | Dr Siân Rhiannon Williams |
| Arolygydd cofrestredig | Mr Huw Watkins |
| Dyddiadau'r arolygiad | 21ain – 24ain Ionawr 2008. |

# Atodiad 2

## Data a dangosyddion ysgol

| Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp blwyddyn | M (call) | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfanswm |
| Nifer y disgyblion | 31.5 | 49 | 46 | 48 | 59 | 44 | 54 | 43 | 374.5 |

| Cyfanswm nifer yr athrawon | | | |
|---|---|---|---|
| | Amser llawn | Rhan-amser | Cyfwerth ag amser llawn (call) |
| Nifer yr athrawon | 16 | 5 | 18.3 |

| Gwybodaeth staffio | |
|---|---|
| Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig) | 19.8 |
| Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin | 7.8:1 |
| Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig | 0 |
| Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig | 24:5 |
| Cymhareb athro (call): dosbarth | 1.2:1 |

| Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad | | | |
|---|---|---|---|
| Tymor | M | D | Gweddill yr ysgol |
| Haf | 95 | 94 | 93 |
| Gwanwyn | 90 | 92 | 92 |
| Hydref | 89 | 94 | 93 |

| | |
|---|---|
| Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim | 11 |
| Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad | 1 |

## Atodiad 3

### Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol
### Diwedd cyfnod allweddol 1:

| **Canlyniadau Asesiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2007** | | | Nifer y disgyblion yn B2 | 32 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canran y disgyblion ar bob lefel** | | | | | | | |
| | | | D | W | 1 | 2 | 3 |
| Cymraeg | Asesiad athro | Ysgol | | 9 | 29 | 53 | 9 |
| | | Cenedlaethol | | 2 | 10 | 63 | 26 |
| Cymraeg: llafaredd | Asesiad athro | Ysgol | | 9 | 29 | 53 | 9 |
| | | Cenedlaethol | | 2 | 10 | 62 | 26 |
| Cymraeg: darllen | Asesiad athro | Ysgol | | 7 | 33 | 47 | 13 |
| | | Cenedlaethol | | 2 | 15 | 60 | 23 |
| Cymraeg: ysgrifennu | Asesiad athro | Ysgol | | 10 | 36 | 48 | 6 |
| | | Cenedlaethol | | 3 | 19 | 66 | 12 |
| Mathemateg | Asesiad athro | Ysgol | | 2 | 34 | 62 | 2 |
| | | Cenedlaethol | | 2 | 11 | 65 | 22 |
| Gwyddoniaeth | Asesiad athro | Ysgol | | 2 | 33 | 65 | 0 |
| | | Cenedlaethol | | 1 | 9 | 66 | 24 |

| Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 2 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl asesiad athro | | | |
|---|---|---|---|
| Yn yr ysgol | 55 | Yng Nghymru | 80 |

D Disgyblion sydd wedi'u datgymhwyso o'r trefniadau statudol
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

### Diwedd cyfnod allweddol 2:

| **Canlyniadau Asesiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2007** | | | Nifer y disgyblion yn B6 | 37 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canran y disgyblion ar bob lefel** | | | | | | | | | | | |
| | | | D | A | F | W | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| Saesneg | Asesiad athro | Ysgol | | | | | | | 12 | 76 | 12 |
| | | Cenedlaethol | | | | | 1 | 4 | 16 | 50 | 29 |
| Cymraeg | Asesiad athro | Ysgol | | | | | | | 14 | 73 | 13 |
| | | Cenedlaethol | | | | | | 5 | 19 | 49 | 24 |
| Mathemateg | Asesiad athro | Ysgol | | | | | | | 5 | 64 | 31 |
| | | Cenedlaethol | | | | | | 3 | 15 | 50 | 30 |
| Gwyddoniaeth | Asesiad athro | Ysgol | | | | | | | 7 | 74 | 19 |
| | | Cenedlaethol | | | | | | 2 | 12 | 53 | 32 |

| Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl asesiad athro | | | |
|---|---|---|---|
| Yn yr ysgol | 88 | Yng Nghymru | 74 |

D Disgyblion a eithrir dan drefniadau statudol o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'r cyfan ohono
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau ar wahân i absenoldeb
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

## Atodiad 4

### Sail dystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd pum arolygydd gyfanswm o ddeunaw o ddiwrnodau arolygydd yn yr ysgol, a chyfarfod fel tîm cyn yr arolygiad.

Ymwelwyd â:

- 51 o wersi neu rannau o wersi;
- phob dosbarth;
- sesiynau o addoli ar y cyd; ac
- ystod o weithgareddau allgyrsiol.

Cafodd aelodau'r tîm arolygu gyfarfodydd gyda:

- staff, llywodraethwyr a rhieni cyn yr arolygiad;
- staff a grwpiau o ddisgyblion yn ystod yr arolygiad;
- staff a llywodraethwyr yn dilyn yr arolygiad.

Ystyriwyd hefyd:

- adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol;
- 47 o ymatebion i holiadur rhieni;
- dogfennaeth berthnasol a ddarparwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad;
- ystod eang o waith disgyblion.

## Atodiad 5

### Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

| Arolygydd | Math | Cyfrifoldebau |
|---|---|---|
| Huw Watkins | Arolygydd Cofrestredig | Cwestiynau Allweddol 1 a 5<br>Mathemateg, Dylunio a Thechnoleg |
| Clive Phillips | Arolygydd Tîm | Cwestiynau Allweddol 2, 6 a 7<br>Daearyddiaeth, Addysg Gorfforol |
| Shirley Taylor | Arolygydd Tîm | Cwestiynau Allweddol 3 a 4<br>Saesneg, Technoleg Gwybodaeth |
| Deris Williams | Arolygydd Lleyg | Cyfrannu tuag at Gwestiynau Allweddol 1,3,4 a 7. |
| Maralyn Tomlinson | Asesydd Cymheiriaid | Rhan lawn mewn arsylwi gwersi, cyfweld â disgyblion a chyfarfodydd tîm |
| Rhian Thomas | Enwebai | Rhan lawn mewn cyfarfodydd tîm |

***Cydnabyddiaeth:***
***Dymuna'r arolygwyr ddiolch i'r pennaeth, staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni am eu croeso, cwrteisi a'u cydweithrediad trwy gydol cyfnod yr arolygiad.***

**Contractwr:** EPPC/Severn Crossing Cyf
Swît H, Tŷ Britannic,
Llandarsi
Castell Nedd SA10 6JQ